OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1146 (Cy. 123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Heol Llandeilo, ger Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed	*16 Mai 2013*
Yn dod i rym	*23 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe–Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mai 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Heol Llandeilo, ger Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 21.00 o'r gloch ar 23 Mai 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 yng Nghroesfan Reilffordd Cilyrychen, i'r gogledd i

Landybïe, yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 20 o fetrau y naill ochr a'r llall i'r groesfan ddywededig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 16 Mai 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.